liw nad ydynt yn cyfarfod bob amſer ar meddyliau hynny, yr rhai a eill ddyfod arnom yn y weithred o weddi: Yr wyf yn gofyn ir gwyr hyn, pryd y byddo yn o honynt hwy yn gwneuthur gweddi yn gyhoeddus, Pa vn a wna ef ai bod yn ddiogel fod holl feddyliau ei wrandawyr yn cyfarfod yn vnion bob amſer, ac yn y cyfriw bwngc, gyd ai feddyliau ef ei hun, neu ar geiriau trwy yr rhain y mae ef yn eu dangos? E fyddai anodd iddo mewn cynylleid fa fawr gael vn dyn a fyddai ai feddwl yn perffaith gydredeg gyd ag ef. Onid oes yr vnrhiw berigl gan hynny, rhag i eiriau ei weddi ef drofi heibio feddyliau da yr rhai ai gwrandawo ef? Neu a oes mwy o *Flinder* yn gwrando gweddi a lefarodd *Jeſu Griſt*, ac yr hon y darfu i ni ddarparu a chyddfurfio ein meddyliau yn barod, na gwrando vn gau wr, meddyliau yr hwn a ragflaena ac yn fynych a dâg ein rhai ni?

Orthryblaeth.

Gwrth-

Gwrthddadl IV.

YR vn rhiw a waſanaetha am atteb i reſwm aral a ddadleuant ſef *yr yſpryd* (meddant hwy) *a ddylai fod yn rhydd, ac ni ddylem ni moi gau ef i fynu mewn rhwymau, Ffurf.*

Atteb

Atteb.

AI rhaid i yſpryd dyn mal y byddo yn rhydd ſod heb dreſn? Neu yw ef mewn caethiwed os lleſara ef weddi yr Arglwydd? Duw a gaṅiattao i ni bob amſer rydd-dyd iw lleſaru hi.

I 1.

Y weddi hon yn wir, nid yw ond ber mewn geiriau; eithr mewn ſylwedd y mae yn cyrhaedd cym mhelled, mal y mae yn ymgyfſred y nef ar ddaear, y breſennol ar holl oeſau i ddyfod. Ydyw yſpryd y gwyr hyn mor faith na ddichon y weddi hon moi *Amgylchu* ef?

Gynwys.

Neu

III.

Neu os caethiwed yw gwrando llefaru y weddi hon, a gaethiwir mwy ar yſpryd y gwrandawyr yn clywed gweddi Jeſu Griſt, neu yn clywed gweddi vn arall ?

Gwrthddadl y VI.

AR hynny y dywedant, *nid yw y weddi hon yn neullduo yn gymedrol nid yw yn datcan*

datcan mon anghennion, ond mewn moddau rhy gyffredinol: eithr ni ddylem ni yn ol digwyddiadau ddatcan bob peth neullduol erfydd ei enw priodol.

Atteb.

Atteb.

YMae yn debygol fod y gwyrhyn yn ofni rhag na ddeallo Duw yn dda oddieithr yddynt hwy ddangos ai bys iddo ef, neu oni roddant hwy gyfrif ar lawr yn neullduol iddo ef oi mân angenrheiciau. Ac yngwirionedd tan liw o neullduoli; Y mae llawer yn lle *aberthu* eu gweddiau at Dduw, yn ymddangos megis i roi athrawiaeth iddo ef. Llawer hefyd yn tybied eu bod yn dymuno wy a ddymunant *Sarph.* Yn ddiau y mae yn anghenrhaid yn fynych benodi pethau neullduol, eithr trwy bwyll a chymedroldeb mawr, or hyn nid yw bawb gyfrannog. Erfynniau cyffredinol, megis y rhai o weddi yr Arglwydd ydynt mal y Sêr yr rhai ydynt ai trigfa yn ddiogel, ai fymudiad mewn *trefn.*

Eithr

Rheol. Eithr pan ddelom at bethau neullduol, yno y mae vn yn deſcyn megis i wlad yr elſennau, lle y mae yr holl bethau yn amrywogaethol ac yn orthryblus, a lle y cyterſydd vn ac ymrafael beunyddol o reſymmau, megis tonnau a wthid gan wyntoedd gwrthwynebus.

I I.

Ddonian. Heſyd pe cymerai ddyn arno henwi yr holl ffaſrau yr rhai a ſyddent anghenrhaid a buddiol iddo, ni wnai ef fyth ddiben oi weddi. Oes vnrhyw ddyn a ellir neullduoli yr holl bethau ydynt reidiol iddo, vn ai er mwyn ei ſod, neu er mwyn ei ſod yn dda? Yr holl rywiau o broſedigaethau? Holl ddyſnderau *Satan*? Ei holl gamweddau? *Pwy yw ef a edwyn ei droſeddau?* Pſal. 19. Ac heb law hynny holl angenrheidiau yr Eglwys gyffredinol, a phob aelod o honi? Pa gyflawniad a ſyddai raid i ni gan

gan hynny wneuthur in gweddiau? Mal na byddent yn ddyffygiol? Yn ddiau rhaid i ni ddyfod i ymadroddion cyffredinol, yr rhai a ymgyffred yn ewyllys holl bethau neullduol: megis ar ol i ni enwi y cyfriw ar cyfriw bechodau, a chan fod heb allael rhoi llawngyfrif or holl rai eraill, ond rhaid i ni ddywedyd yn gyffredinol *madden i ni ein dyledion?* Yr wyf yn dymchwelyd y rhetwm gan hynny. Gan fod yn amhoffibl i ni luniaw weddi, yr hon a neulldua yr holl bethau, y mae yn anghenrhaid i ni arfer gweddi, yr hon yn ei chyffredinrhwydd a gynwys yr holl neullduolrwydd. *Camweddau*

Gwrdd-

Gwrth-ddadl VII.

EIthr (meddant hwy) *ni ddarllenwn ni ir Apostolion errioed ei llefaru hi.*

Atteb.

NId yw y rheſwm hwn wedi ei gloi aiddibennu. Rheſwm nâg, am weithred. Nid yw o ſylwedd ffydd ni thynned allan or Scrythyr. Nid ydym ni yn darllain

lain yn yr *Hiſtori*, ir Juddewon errioed gyſſegru y ſlwyddyn o *Jubile*, y pwngc pennaf or gyfraith *Ceremoniaidd*; etto yn ddiammau hwy cyſſegraſant hi, oni buaſai hynny yn ddiau ſe faſai Dduw yn eu coſpi hwynt am fai mor argyoeddus. Nid ydym ni yn darllain ir Apoſtolion errioed ſedyddio yn enw y tri pherſon dwywawl, enwedig yn eu *Hawdurdod* hwy; a ddywedwn ni gan hynny na ſedyddiaſont hwy yn y ffordd hon? *Commiſſiwn.*

II.

Yr wyf yn dywedyd yn hytrach, mae *Jeſu Griſt* a adroddodd vddynt hwy y *Fordd* hon ar weddi, am hynny hwy ai harferaſant hi. A ydyw gredadwy, lle yr oeddynt hwy yn dymuno ffurf ar weddi, ac *Jeſu Griſt* yn ei adrodd air yng air, na leſarent hwy byth mo honi? *Ffurf.*

III.

A pha bai heb fod felly ; yr oedd, yr Apoſtolion wedi eu cynnysgaeddu ag yſpryd yr hwn ai tywyſai hwynt, yn gyſtal yn eu Gweddiau, ac yn eu Hathrawieth. Eithr oes genym ni yr vnrhyw yſpryd diſomedſg,yr hwn a adroddodd vddynt hwy y cyfriw weddiau ? Yſym ni dſiogel hyſpys na *Phallwn* ni mwy na hwythau nag yn y matter, nag yn ymodd?

Fel hwn.

Gwrthddadl *VIII.*

YN ol hyn y maent yn ymholi

holi fal hyn : y weddi hon (meddant hwy) *a gair Yn Scrifenedig mewn dau lyfr or Teſtament newydd* (*ſef St.* Mat. 6. *St.* Luc 6.11.) eithr mewn amryw *eiriau*, a pheth ſydd fwy, *y mae vn er Efangylwyr hyn yn gadael allan y peth a ſcrifennaſai y llall : Pa fodd*

ganhynny y dylem ni ei hadrodd hi? Pa vn ai ar ol yr hyn ſydd ar lawr yn St. Mat? ai yn ol yr hyn o gwttogodd St. Luc? Yr holl bethau *hyn a ddengys nad oedd mo Feſu Griſt yn meddwl am gadw geiriau y weddi hon.*

Atteb.

Atteb.

PE byddai y rheſwm hwn yn cymeryd lle, pryd y cyſlegrom ni Swpper yr Arglwydd, nid rhaid i ni ſyth adrodd y geiriau yr rhai a lefarodd *Jeſu Griſt* yn y weithred honno: Canys hwynt a adroddir mewn amryw *fodd mewn pedwar amryw o lyfrau or Scrythyrau; megis nad oes gan* vn or Efangylwyr ai coſiodd hwynt mor geiriau hyn *Gwna hyn er cof am danaf.* Ai rhaid i ni yn y weithred hon gan hyny adael ymaith yn ollawl eiriau *Jeſu Griſt*: tan liw or amrywogaeth, yr hyn a welwn ni yno? Nid oedd mo Sr. *Paul* yn ei ddeall felly, pryd y mae yn dangos it corint inid yr agwedd y dylent gyſlegru Swpper yr Arglwydd; y mae yn ail-adrodd yn eglur y gwir eiriau a lefarodd *Jeſu Griſt* wrth ofodiad y Sacrament hon megis y derbyniaſai ef ganddo ef, 1 *Cor.* 11.

II.

Ddweddu. Llyma *Ddibennu* rheſwm ar gam, na ddylem ni ofalu amy geiriau tan liw or ymrafael a welwn ni yno. Yn y gwrthwyneb, lle y mae Duw yn ailadrodd yr vn peth, mewn amryw eiriau, am hynny dylem *ni ddal mwy o ſulw* arnynt; Canys y mae yr rhagoriaeth ſwn yn tyſu i egluro y naill air wrth y llall. Felly pan ſyddo vn or Eſangylwyr yn dywedyd *Pardyna e ndyledion*; y mae r llall yn ei *eſponnie* gan ddywedyd *maddeu i ni ein camweddau.* Diragor yw cymeryd y naill, neu y llall or ddau draethawd: Y ddau hyn a lefarwyd gan *Jeſu Griſt.* A raid i ni wneuthur cimaint o anhawſdra i ddewis? Neu a raid i ni ſwrw i lawr y ddau hyn oblegid i *Ieſu Griſt* ddywedyd pob vn or ddau hyn?

Graffu yngwanog.

Ddeſparthu.

A:

III.

At hyn y maent yn haeru, fod vn or Efangylwyr heb fod y gorphen hwn ganddo ſef, canys ti eid or Deirnas &c. hynny fyd hawdd ei atteb. Hyn yw mal pe dywedem, ni ddylem ni mo gyſſegru Swpper yr Arglwydd o ran bod vn or Efangylwyr ſef St. *Ioan* heb ſon am dano. Onid ydynt hwy yn cael y clo neu y gorphen hyn yn St. *Luc*, ai rhaid vddynt hwy fyned heibio iddo yn angenrheidiol er ei gael yn St. *Mathew*? Neu a ddylem ni ar yr achos hon adael ymaith yr holl weddi, er na chair yn y Ddau Efangylwyr hyn? Y mae genym ni amryw Pſalmau yr rhai nid ydynt yn cynnwys ond yr vn at vnrhyw ſail; megis 14. ar 53. nid ydynt ond yr vnrhiw beth: er hynny y mae cloadigaeth yn y naill, yr hwn nid yw yn y llall. A raid i ni roi y ddau i lawr.

Gwrth-

Gwrthddadl IX.

Y Mae rhai a ymryſonant yn erbyn arfer y weddi hon, am anghymwyſdra, a debygant hwy ei fod ynddi, Yr ydym ni yn dymuno ynddi ein bara beunyddiol: *Eithr*, meddant hwy, *y dyn a fyddo yn barod*

rodi farw (megis yr hwn a fyddo mewn ing ar ei drangc yn ei glafvvely, neu yr hvvn ſydd ar yr Scaffold, ac hob edryth am ddimond am y dyrnod tynghedol) a raid iddo ef hefyd ofyn am fara? Pa les iddo ef a vvna gofyn y peth nid rhaid iddo ef vvrtho, a pheth nid yw iw arfer iddo mwyach? At-

Atteb.

YMae genyf amryw attebion iw roi at hynny.

I.

Pe bae yr erſynniad yma yn gymmwys i neb ond ir rhai ſydd a ſicerwydd vddynt i fyw, ni allai ddyn yn y byd fyth moi ddywedyd; Canys yr vnrhiw wŷr hynny, yr rhai ydynt mewn iechyd perffaith a diogelwch dedwyddol, etto er hynny i gyd nid ydynt ſicer i fyw vn mynudyn. Felly *Iesu Grift* a ddyſgodd i ni ofyn peth yr hwn ni ddylaſem ni errioed ei erfyn.

II.

Mal nad oes vn dyn yn ſicer oi fyw ddiwrnod, felly nid oes neb a wyr mae y diwrnod hwn a fydd

o af

olaf iddo. Y mae llawer yn cyffwrdd a phyrth angau yr rhai nid ânt i mewn cyn gynted. Er bod dyn gan hynny, ac yn ei weled ei hun yw agos iawn i fyned allan or byd; er hynny i gyd gan ei fod heb wybod yr amser oi ymadawiad, ai rhaid iddo ef wrthod bara a haelioni Duw, yr hwn yw r rhoddwr o honaw, megis pe bai ef ficer na byddai raid iddo fyth wrtho?

III.

Pryd y gofynnwyf fym mara, y mae hyn bob amfer tan ammod, fef os rhaid i ni wrtho etto, neu os eftynnir etto fy nyddiau ar ddauaren ac nid modd arall. Oes dim anaddas yn yr erfynniad hyn? neu oni ddylem ni bob amfer lefaru fal hyn?

IV.

Ef a wyddis yn dda nad ydyw yr erfynniad hwn wedi ei rwymo at luniaeth yn enwi bara, yr wyf yr rhagfeddwl am bob peth fydd angenrheidiol im bywyd, ie yr awyr ar anadl. Oni allai eu gofyn hwynt tros yr amſer fydd i mi i fwy, er na byddai yngwirionedd ond tros yn munyd bychan, er mwyn gallael o honof fi ogoneddu Duw?

V.

Canniattewch na byddai raid imwach iddo ef fydd yn marw, ofyn *bara* a raid iddo ef wrth eddywedyd, *madden ini ein dyledion* ac *na arwain ni i bi fedigaeth*?

Ni

VI.

Ni fynnai *Jeſu Griſt* i ddyn ofyn bara iddo ei hun yn vnig, eithr ef a orchmynnodd i ni ofyn bara i eraill gan ddywedyd *dyro i ni*. Oni eill y dyn gan hynny a fo parod i farw neu oni ofyn ef fara iddo ei hun, ydyw cariad perffaith yn gorafun iddo ef ofyn it rhai ydynt i fyw ar ei ol, ac i weddio tros y rheini?

VII.

Ac yn olaf, oblegid nad rhaid mwyach i wyr claf a fo yn marw, neu yr rhai a fyddo ar y Sibedau wrth *fara*, allwn ni gloi ein rheſwm y dylai bawb eraill ymgadw rhag ei ofyn? Wrth yr vnrhyw reſwm hwy a ddylent ymgadw oddiwrth ſwyra.

Gwrth-

Gwrthddadl y X.

LLawer hefyd yngwneuthur petruſder i lefaru y weddi hon, oblegid ei bod hi yn eu rhwymo hwynt i ddywedyd eu bod yn maddeu ir rhai droſeddent *iw* her-

herbyn hwy. Yn awr nid oes gan wr bob amser feddwl i faddeu. Dyma ledrith liwgar, canys os bydd i mi feddyliau i ddial, a pha wyneb y gallai ddywedyd, yr wyf yn maddeu? Eithr ond wyf yn fyngwneuthur fy hun yn fwy euog yn dywedyd felly? Na, y mae y wers hon yn cynnwys

wys rhegfa, yr hon a wnaf yn fy erbyn fy hun, ſef: yw hyn-ny, oni faddeuaf fi nid wyf yn gofyn maddeuant, oddiy-ma y digwydd fod llawer o honynt ſydd ar gofal ar-nynt o weddio yn gyhoeddus yn ym-gadw oddiwrth y weddi hon, rhag ofn bod o rai or ſe-fyllwyr y rhai a we-

weddiant gyd ag
hwynt iw cael i roi
celwydd i Dduw.

Atteb.

Atteb.

Deimulo.

YMae llawer yn wi
iw ddywedyd ar y
cweſtiwn hwn. O;
rhaid i ddyn a *Glyw*
ynddo ei hun ddim cynnwrf o
gaſineb roi heibio arfer y weddi
hon: Yr wyf vn dywedyd ar
hyn, oni eill ef arfer y weddi hon
ni eill ef arfer yr vn arall. Yn
gimaint mai gorafun i ddyn
weddi yr Arglwydd ar yr achly-
ſur hyn iw gorafun iddo ollaw
weddio at Dduw mewn modd
arall yn y byd pa ddelw bynnac.
Y mae hyn yn canlyn yn eglur
trwy lawer o reſymmau. Yn
gyntaf oll, ni eill ef wneuthur
gweddi dda oni bydd yn *Gyttu-*
nol (or lleiaf mewn ſylwedd) i
weddi yr Arglwydd. Yn awr
y mae r weddi hon yn rhwymo
vn i ddywedyd, ei fod yn ma-
ddeu iw elynnion; felly oni

Neu Gyfattebol.

ddy-

ddywaid ef yn yr vnrhiw eiriau, y mae yn perthyn iddo ddywedyd yn yr vnrhiw fynwyr. Heb law hynny, a ddichon ef wneuthur vnrhiw weddi heb o'yn maddeuant oi bechodau? A chan weled nad yw y gollyngdod neu r maddeuant hwn wedi ei addo iddaw, ond tan ammod iddo vntau faddeu, a eill ef ei ddefyfyd fodd arall? *Canis oni faddeuwch chwi i ddynion eu camweddau ni faddeuaf finnau chwaith i chwithau eich rhai chwi*, Mat. 16. 15. Na, yngwirionedd ni eill ef o'yn dim arall gan Dduw, oni bydd ef wedi ei ymroi yn barod i faddeu. Os dwg ef ei *Aberth* at yr allor, *ef a ddylai yn gyntaf ei gymodi ei hun ai frawd*, onide eu aberthau, ai holl erfynniau *ni thalant ddim.* Chwaneg at hyn, na eill vn dyn wneuthur gweddi heb deftiolaethu ei fod yn vfuddhau i Dduw; Canys wrth ddymuno ar Dduw cyflawni ein ewyllys ni, yr ŷm ni yn addaw cyflawni ei ewyllys ef.

Oll. Nid ynt o ddim haeddiant.

ef. Ni ddylem hefyd attolygu *bydded ei ewyllys ef.* Yr rowchon hwn yw vn pwngc o ewyllys Duw i ni bardynu yr rhai a wnaeth in hetbyn ni. Yr wyr yn dywedyd gan hynny, os budd llid yn lluddies i ddyn lefaru gweddi yr Arglwydd ; yr vnrhiw reſwm a luddia iddo ef weddio at Dduw mewn vn modd ollawl.

Gwelwch i ba fan y mae opiniwn y gwyr hyn yn tueddu, canis nid yw eu Rheſwm yn gorafun yn vnig weddi yr Arglwydd, eithr heſyd yr holl rai eraill a arferant hwy eu hunain oi wneuthur.

I I.

Gadewch i ni weled y rhwyſtrau a gair yma. Efe (meddant hwy) *yr hwn yn lle maddeu ſydd yn llosci am ddial, ef yr hwn ſydd iddo ag enaid wedi ei foddi yn ei fuſtledd,*

ſuſtledd, a chwedi ei ymlenwi o lid anfodlongar a eill ef lefaru y weddi hon? At hyn yr wyf yn atteb, pyd ydym ni yma yn meddwl mo honynt hwy yr rhai ydynt wedi eu meddianu yn gyſannedd g yſpryd dial, ac heb ddim *bwriad* vddynt i ymadael ai malais; eithr y *ddaddlyw* am danynt hwy, yr rhai trwy wendyd, a gant anhawſdra i faddeu, ac fydd yn dywed ynddynt eu hunain ymdrech rhwng y cnawd ar yſpryd. Os byddaf fi gan hynny yn yſpryfwr hyn, a allai ddywedyd *maddeu i ni ein dyledion*, gan weled nad oes genyf mor gallu ond yn brin i ddywedyd ym mod i yn maddeu ir rhai a wnaethant im herbyn? Yr wyf yn atteb he yd, ym mhlith y camweddau, am yr rhai yr wyf yn gofyn maddeuant yr wyf yn cyfrif hwn, ſef yr anhawſder fydd i mi i faddeu. Yr wyf yn gofyn maddeuant am hwn, fod yn anawdd i mi roi maddeuant.

Gwrthddadl y

XI.

IW eſceuſod i
eu hunain y
maent yn haeru
ac ymdaeru yn
ollawl, *eu bod hwy*
yn eu gweddiau
cyffredin yn ym-
gyffred holl ſyl-
wedd hwn, eu bod
hwy yn gwneuthur
deon-

deongliad o honaw, yn hyn yw r vnrhiw beth mewn effaith, er nad ydynt yu adrodd y gwir ymadrodd cyfangwbl o honavv.

Atteb.

WRth y cyſrif yma ni ddywedant yn ffurſiol, *ni faddeun ir rhai a wnaethant in herbyn:* Eithr y maent yn ei ddywedyd mewn ſylwedd. Ydyw yn ſwy anghymmwys ei ddywedyd ef yngwir eiriau *Ieſu Grift* nai ddywedyd mewn gei-

riau cyſtadlwedd ? Ac felly y[r] hollgwbl arall o weddi yr Arglwydd : Canys gan eu bod hwy yn cyfaddef y rhaid i ni ddatcan ei holl feddwl ef, ydyw *Wrddedig* i ni ddatcan y geiriau o honaw ?

I I.

Wahardd-edig.

Or gwrthwyneb, pan fyddo ymddadl am ddeongli digwyddiad, y mae yn addas ei lafaru air yng-air er mwyn cael gweled ydyw y deongliad yn cyttuno ar *Teſdyn.* Mal pan ddeonglon neu eſponnion weddi yr Arglwydd, pa ham nad ydynt yn eu adrodd, er mwyn cael o ddynion weled pa vn a wna y deongliad ai cyſatteb i eiriau *Ieſu Griſt.* Eithr ym mhellach, A ydyw eu deongliadau hwynt or vnrhiw bwys a geiriau ein Harglwydd ? Ydyw deongliad yr Scrythyr mor Awdurediga yw yr Scrythyr ei hunan ? Y mae

Texi neur Scrythyr.

geiriau

geiriau yr Arglwydd yn ganonicol ac yſprydol : Canys y maent yu ddarn or Scrythyr : Eithr ni feiddia y gwyr hynn *Faentimio* ſod eu gweddiau, neu y geiriau o honynt yn ganonicol : Canys a eill gweddi a lunir gan ddyn waſanaethu am reol *Ddiſom* iw wrandawyr. Yn y llyfrau Apocriphal y cair gweddiau *Nodedig*, vn ai yn eu ſylwedd, neu o herwydd eu *Doſparthiad*, pa ham na wnawn ni gimaint cyfrif o honynt hwy ac or rheini a gynhwyſir yn y llyfrau canonicol ? Canys er eu dychymyg ai llunio gan wyr duwiol deallgar, etto ni ddaethant oddiwrth yr yſpryd glân, yn yr vnrhiw gynneddf, perffeithrwydd, ac awdurdod ar rheini a ſcrifenwyd trwy ddwylaw y prophwydi, at yr rhai hefyd ni feiddiwn ni gyffelybu ein rhain ni ; llai o lawer hefyd ir hyn a adroddodd *Ieſu Criſt*.

Ymddiffyn.

Ddidwyll odiaethol Datcaniad.

Nid yw ddigon gwrthddywedid: *Wrth y cyfrif hwn ni ddylem ni fyth ddywedyd vn weddi ond hon.* Canys hyn a fyddai cymaint a phe dywedai vn, nid yw rydd neu gynwyſedig i ni ddeongli yr Scrythyr oblegid nad yw ein deongliadau neu ein doiparthiadau ni fyth mor awduredig; ac yw yr Scrythyr ei hun. Ni allwn ddeongli gweddi yr Arglwydd a gweddiau eraill; eithr nid yw waharddedig tan gyſgod ein deongliadau, ni ei adrodd ef yn ei eiriau ei hun.

Atteb.

Gwrthddadl yr XII.

YR wyf yn dyfod yr rowrhon at eu gwrthddwediad diweddaf yn yr hwn y maent yn coelio eu bod yn dadcuddio dichell fawr. *Geiriau y weddi hon*

(meddant hwy) *a lefarwyd i fod yn battrwm gweddiau ac nid i wasanaethu am weddi.*

Atteb.

NId yw hyn ond hud ddichellgar a diangfa ddieithrwâg. Oni eill y gerriau hyn fod yn weddi ac yn *Ddull* i wneuthur wrthi? Oni eill adeilad wasanaethu am Battrwm i adeilad arall? Ydyw y pethau hyn yn anghyfartal?

II.

Deliwch Sulw, nad yw Jesu Grist yn dywedyd, *gofynnwch ich Fad*, *mal y ſanctteiddier ei enw ar iddo efrei i chwi eich bara*, &c. Na gwelwch pa fodd y dywaid: dywedwch *Ein Tadyr hwn wyt yn y nefoedd* dywedwch, *maddeu i ni* dywedwch *gwared ni* &c. Onid yw yr rhain ymadroddion a ffurf ar weddi? Allai vn yn well neu yn eglurach roi yngenau vn, ei eiriau ei hun? Neu oedd *Iesu Grist* pryd yr ordeiniodd ef i ni eu dywedyd, yn meddwl yn y gwrthwyneb yn vnion, ſef na ddylem ni moi dywedyd? *Nodwch.*

III.

Eithr tybiwch eu rhoi hwynt yn vnig am Batrwm, ac nid am weddi; Y mae g gwyr hyn yn

cyſaddef y dylwn i bob amſer wrth weddio fod ar patrwm hwn yn fym meddwl, a pham na chaſ ef yn ſyngenau.

I V.

Oni leſarant hwy ef megis gweddi pa ham na leſarant hwy ef or lleiaſ megis Patrwm neu ffurf? Pan ddywedont Jeſu Griſt dy ſab di an dyſgodd ni i ddywedyd wrthit *Ein tad yr hwn wyt yn y nefoedd*, &c. Oes arnynt hwy ofn ddywedyd celwydd yn dywedyd felly? Neu ydynt hwy yn ofni rhag nad ydyw y gwirionedd hwn wedi ei ddywedyd yn dda.

V.

Yr wyf yn dywedyd fod yn rhaid arhrawiaethu y bobl beunyddol i weddio yn dda. Yn awr y mae yn beth diddadl mai

amhoſſibl gwneuthur vnrhiw weddi dda oni chyttuna hi or lleiaf mewn ſylwedd ar ffurf hon, o eiddo *Ieſu Griſt*. Onid yw ſuddiol a rheidiol gan hynny ir bobl glywed yn fynych y ffurf hon'er mwyn cael o honynt weled i ba reol y dylent gyd ffurfio eu gweddiau? Yr ym ni *yn beio ar* Eglwys Rufain, am nad yw yn adrodd ir bobl yr ail gorchymyn or *Decalog* neu or deg; oblegid bod y diſdawiad hyn yn rhywſtro llawer iawn i gydnabod y delwaddoliad yr hwn a wnaethont. Oni phair rhoi y ffurf hon heibio, ir bobl yn enwedig i gyniſer o eneidiau truain yr rhai ni allant ac ni wyddant pa fodd i ddarllain yr Scrythyrau, *Ollwng dros gof* y weddi hon yn y diwedd, ac na wypont mwy mor rheol yr hwn a ddylid ei gadw yn gweddio at Ddnw? Mewn effeith y mae y gwyr hyn yn gwneuthur cimaint ac a allont, i beri i goffadwriaeth y weddi hon gollı.

Yn hwrw yn erbyn deg gorchymyn.

Anghoſio.

I ddyfod i ddiben, gwelwch yma y rhagoriaeth ſydd rhwng y gweddiau yr rhai ydynt on gwneuthuriad ni ein hunain, a gweddi yr Arglwydd. Ef a'ellir dywedyd ſod cimaint a rhwng y Babell ar patrwm yr hwn a wnaeth *Duw* i *Moſes* ei weled ar y mynydd. Y Patrwm oedd nefol wedi ei lunio yn ddigyfrwng gan law Duw: Y Babell oedd ddynarol gwneuthyredig, o waith llaw dyn. Gweddi yr Arglwydd ſydd nefol a dwywawl oll: ein rhai ni mewn rhan trwy laſur dyn, canys nid oes i ni mor yſpryd mewn perffeiddrwydd. Y gweithdy hwn on hyſpryd ſydd ddynol ac amherffaith hob amſer, eithr y Patrwm ſydd ddwywawl a pherffaith. Nid oes yn dyn mor ddyſgedig, mor grefyddol, *ar na ddichon fethu* yn gwneuthur ei weddiau y maent yn ſail i amherffeithrwydd, i ormodedd i anhe'n ac i afreolau. Nid ydym ni heb fai yn hyn o negeſau. Yr ym

Nad yw ſail i fethiant.

ym ni yn hyn o beth yn ddiffygiol yn dragywydd; yn ai yn gadael allan, neu fod yn rhyfyrr mewn yn pwngc; yn rhynir yn y llall, neu yn derchafu ein meddyliau allan ourgradd, eithr yn dywedyd Gweddi yr Arglwydd yr wyf yn ficcr, na allai fethu ei ddywedyd yn dda, nad ydwyf yn gadael allan ddim, nad ydwyf yn dywedyd dim gormodedd, nad nyf o gwydr fryd, nad oes dim hyllder yn fyngeiriau gan hynny yn ol i mi funio gweddi yn y modd goreu y bo poſſibl i mi, mi a yſtyriaf y deffygion o honi, ac iw adgyweirio hwynt mi arfera hon, yr hon a wnai fod yn berffeithgwbl oldawl. *Byrr bwyll.*

Ni yr wyf yn dywedyd yn ol i mi offrwm gweddi om gwaith am dull fy hun, mi ddylwn ddymuno gan Ddnw iddo ef gynorthwyo y deffygion o honi, ac ir diben hyn yr wyf yn arfon atto ef y weddi yr hon a ddyſgodd ei fab ef i mi. Ydyw yn-

gwaith

gwaith i mal hyn yn myned rhagddo yn amherthynaſol? Oes dim ynddi hi o achos y dylem ni ſwrw ymaith yr arfer or weddi hon?

Yr wyf yn cloi y cwbl gan hynny, y dylem ni ei hadrodd hi. Ni ddylem o blegit i *Ieſu Grist* ei rhoi hi yn ein geneuau ni. Ni ddylem oblegit hon yw r *Talgrynniad* or holl weddiau eraill. Ni ddylem oblegit hon yw yr rheol ar Seren a ddylai cin *Hyfforddi* ni yn ein gweddiau ar Dduw. Ni ddylem i *Adgweirio* y diffygion yr rhai ydynt yn ein holl weddiau eraill. Ni ddylem oblegit eu bod hi yn gyffredinol, i bob dyn, i bob matter neu achos, ym mhob amſer, ym mhob lleoedd. Llyma y weddi yr hon y mae holl eglwyſydd y byd yn ei llefaru: ac fal dyma *Ddiddanwch* mawr i mi, gael o honwyf fi *Gadw fy rhan yn y geferllach fawr hon*: Llyma weddi yr hon a allaſſi ei dywedyd mewn hawddfyd, mewn

Crynodeb.

Arwain.

Ailffurfio.

Gyſſur.

Gannfy mharthyn y cor hwn.

mewn adfyd mewn heddwch, mewn rhyfel; mewn Jechyd mewn clefyd; yn fy mywyd yn fy marwolaeth yr ieuangc yr hên, y gyfoethog ar tlawd, y Brenin ar bugail, allant ei chyd-lefaru hi.

Ond ydyw hyn beth rhyfeddol, fod geiriau *Iesu Grist* yn cael eu hammeu genym ni? Pe byddai ein tadau ni, (yr rhai a ddioddefasant gymaint am gael rhydddyd i lefaru y weddi hon mewn iaith a ddeallid, yr rhai oeddynt yn gofalu gymaint am ein dysgu ni (er mwyn cael o honom ni hi bob amser yn ein geneuau) yn cyfodi y dydd hwn allan ou beddau, ac yn gweled ein bod ni yn cynnyg *bwrw dros gofy* weddi hon; Pa fath warth a gwradwydd a ymchwelent am ein pennau ni? Eithr, yr hyn fydd fwy, *Eargliwch* ar Jesu Grist ei hun yr hwn a archodd i chwi ei llefaru hi. Pwy a vfuddhe-

Abergofi. Clowch, Neu welwch

ddhewch chwi iddo; ai iddo ef, ai vddynt hwy yr rhai a ymdrechant *i ddwyn ar ddeall* y gwrthwyneb? Nag ef, wch, nag ofnwch lefaru geiriau *Ieſu Griſt*. Jeſu Griſt yr hwn ai adroddodd hwynt i chwi a ſydd *gwarant* i chwi tu ac at Dduw, ac a ſiccrha eich geiriau, gan eu bod hwynt yn ei ciddo ef ei hunan. Dygwch hwynt bob amſer yn eich calonnau ac ar eich gweſuſau. Yr wyf yn eich rynghedu chwi ſym mhrodyr trwy yr anhydedd a ddygwch chwi i *Ieſu Griſt*, trwy y cytrif ar parch, y ddylech chwi roi iw eiriau, trwy y cariad a *Ddangoſodd* ef i ni yn dyſgu y weddi hon, trwy yr *hawl* ydd i chwi o weddio yn dda, a thrwy tangneddyf a gorfoledd yr Eglwys; na chynhwyſwch i'n dyn gippio oddiarnoch y gem gwerthfawr hwn, yr hwn a roddodd Iaiw mab Duw ei hun i chwi. A channiattaed Duw yn ei drugaredd ni ag vn ar vnhiw lefe-

rydd

Berſwadiant.

Awdurdod.

Deſtiolaethodd.

Intereſt.

rydd bob amſer ein daroſtwng ein hunain at *Ein tad yr hwn ſydd yn y nefoedd*, canys iddo eſ y perthyn y deirnas, *y gallu*, *ar gogoniant yr awr hon ac yn dragywydd*.

Amên.

Diwedd.

Y pader ar gan ar byrdwn iw ganu gyd ag efo ar y don saesonaeg a elwir our Father &c.

EIn Tad nefol or vchelder,
Dy enw grasol a sancteiddier,
Bydded d'wllys ar ddauaren,
Mal y mae n y nefoedd lawen,
Dyro heddyw wir Jehovah
Duw nefol Dâd
Inni ein beunyddol fara
Y gwir fab rhad,

Dod:

Dod faddeuant on dyledion
Mal y rhown in cyd gryſtnogion,
N'arwain ni i brofedigaeth,
Eithr gwared rhag drwg diffaeth
Canys eiddot yw teirnaſu,
Nerth gogoniant oll a gallu,
Duw, nefol dad
Y gwir fab rhad.
Yn oes oeſoedd, wrth yſtyrrio
Yn dragywydd felly byddo.

Eſellir gadael y byrdwn allan ai ganu ar dôn *Pſalm* viij ſylldafog.

Cyfieithiad ni wn i allan [illegible]ith pwy.

Einioes dyn ſydd yn gefflybus,
I chwarae fyddai gwir alarus;
Croth y fam yw ty r ymwiſgiad,
Ar y Stafell or dechreuad.
Y ddauar yw y lle r ymddengys
Ar chwaryddle r wlad lle r erys.
Chwaryddwyr ŷnt: drwg abſen
llid ynfydrwydd a chenſigen.

Y waedd gyntaf a rô r plentyn
Prolog yw mae r chwarau n canlyn,
Mud amneidiau yw r Act gyntaf
Peth perffeithiach ydyw r nesaf,
Yn y drydedd gwr yw n dechrau
Maethu lliaws o bechodau.
Y bedwaredd mae n dihoeni
Pumed clwyfau mewn trueni:
Yr Epilog yw dyfod angau
I roi diben oi benydiau.

R. V.

In Engliſh *thus*:

In Sir Henry Wotton
His Book.

MAns life's a Tragedy. His Mothers (Wombe
(From which he enters) is the Tyring-Roome:
This ſpacious Earth the Theater, And the Stage
The Countrey which he lives in: Paſſions rage
Folly and Vice are Actors: the firſt Cry
The Prologue to the enſuing Tragedy.
The former Act conſiſteth of dumb ſhowes,
The ſecond he to more perfection grows:

In

I'th' third he is a man, and doth begin
to nurture Vice, and act the deed of Sin:
I'th' fourth declines. In the fifth Diſeaſes c.
and troubles him, then Death's his Epilogu

Ignoto.

13DE72